Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Medi 2006

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Dewis y Diwrnod

Mae llawer o berchnogion busnes a rheolwyr, fel y Prif Weinidog, yn gwybod yn union pryd y byddan nhw'n gadael eu swydd bresennol, oherwydd eu bod yn ymddeol neu'n gwneud penderfyniad strategol i symud ymlaen.

Fyddai rhoi awgrym o'ch bwriad i is-weithwyr ymhell o flaen llaw yn cynorthwyo trosglwyddiad trefnus ynteu a fyddai hynny'n achosi cyfnod o barlys pan na fyddai gan yr adran na'r sefydliad unrhyw awdurdod go iawn na chyfeiriad tymor hir? Ddylech chi aros nes y bydd olynydd ar fin cyrraedd cyn gwneud unrhyw gyhoeddiadau?

Eu gwir werth

Un tro, dywedodd Malcolm Forbes, cyhoeddwr o UDA: "Gresyn na allen ni brynu swyddogion gweithredol am eu gwerth a'u gwerthu am yr hyn maen nhw'n credu yw ei gwerth."

Sut fyddwch chi'n trin gweithredwr gwerthfawr ar eich tîm sy'n gofyn gormod o ran cyflog? Fyddwch chi'n cytuno, gan fentro galwadau tebyg oddi wrth eraill, yn cynnig cynllun bonws sy'n ariannu ei hun, wedi'i gysylltu â'r refeniw ychwanegol fydd yn cael ei gynhyrchu, neu'n ei ollwng yn y gobaith y byddwch chi'n dod o hyd i rywun cost-effeithiol yn ei le yn fuan?

Dilynwyr diwyd ffasiwn

Yn ôl y gwrw busnes Peter Druckner: "Gwaith caled iawn yw meddwl ac mae ffasiynau rheoli yn golygu nad oes yn rhaid meddwl."

Fyddwch chi'n tueddu i edrych ar y ffasiwn rheoli diweddaraf fel llwybr sydyn at wella'ch busnes, ynteu a fyddwch chi'n dygnu arni nes darganfod eich datrysiadau eich hun, wedi'u seilio ar brofiad a dadansoddiad meddylgar a dyfeisgar o'ch problemau chi'ch hun?

Pynciau tab

Dywed yr hen wireb dafarn y gall pobl drafod beth bynnag a fynnan nhw, cyn belled na fydd yn ymwneud â chrefydd neu wleidyddiaeth.

Ddylai rheol debyg fod ar waith yn y gweithle, neu a all rhannu safbwyntiau angerddol rhwng cydweithwyr, mewn awyrgylch o barch y naill at y llall, greu amgylchedd proffesiynol mwy symbylol? Fyddech chi'n gallu cymedroli'r fath drafodaethau neu a yw peryglon ffrwydro'n rhy uchel?

Rheoli credyd

Yn nhermau llif arian, dywed doethinebwyr busnes confensiynol y dylai cwmnïau fynd ar ôl eu dyledwyr yn llym a sicrhau, cyn belled â phosib, bod cwsmeriaid yn glynu'n glos at y cyfnodau credyd y cytunwyd arnyn nhw.

Ydych chi'n hyderus fod gan eich person neu'ch tîm cyfrifon y cydbwysedd sgiliau angenrheidiol i drin cwsmer gwerthfawr a rheolaidd yn gadarn ond yn ddiplomatig pe byddai ar ei hôl hi â'i daliadau? Fydden nhw'n gallu penderfynu'n gywir pryd i gysylltu â chi, cyn i bethau fynd dros ben llestri?

Gwefannau Rheolaeth

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth